ATODLEN 1

Myfyrwyr Cymwys

# RHAN 2

## Categorïau

### Gweithwyr, personau cyflogedig, personau hunangyflogedig ac aelodau o'u teuluoedd

**7.** Person sydd—

(a) yn preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;

(b) wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac

(c) â hawlogaeth i gael cymorth yn rhinwedd Erthygl 12 o Reoliad y Cyngor (EEC) Rhif 1612/68 ar ryddid gweithwyr i symud(**1**), fel y'i hestynnwyd gan Gytundeb yr AEE(**2**).

(**1**) OJ Rhif L257, 19.10.1968, t.2 (OJ/D-Dn 1968 (II) t.475).

(**2**) ystyr "Cytundeb yr EEA" ("EEA Agreement") yw'r Cytundeb ar yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a lofnodwyd yn Oporto ar 2 Mai 1992 — Gorch. 2073, fel y'i haddaswyd gan y Protocol a lofnodwyd ym Mrwsel ar 17 Mawrth 1993, Gorch. 2183